

Cynhadledd Abertawe 2015: Argraffiadau Elizabeth:

Y Gynhadledd Flynnyddol eleni oedd y bedwaredd i mi ei mynychu, a chafwyd yr un safon uchel gyda rhai cyflwyniadau hynod ddifyr a oedd yn ysgogi'r meddwl. Roedd rhaglen y ddau ddiwrnod yn gytbwys ac yn rhychwantu hanes Cymru o'r cyfnod cynnar hyd at fywyd bob dydd heddiw, ac ysgogodd hyn ddadleuon bywiog a phleserus iawn.

Un o'r uchafbwyntiau i mi oedd cyflwyniad ar y cyd gan Elen Phillips a Sara Huws - '@DyddiadurKate: cyfryngau cymdeithasol, hanes cymdeithasol'. Cyflwynon nhw adroddiad ar eu cydweithio, yn Gymraeg a Saesneg, mewn dull proffesiynol a brwdfrydig iawn. Roedd yn arddangos dulliau arloesol o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyflwyno defnydd archifol a'i berthnasedd i'n bywydau ni heddiw, i ddemograffeg gymdeithasol ehangach.

Mewn cyferbyniad, roedd cyflwyniad dramatig tawel Debra John o fywyd Amy Dillwyn yn deimladwy a dwys, yn deffro empathi a hyrwyddo dealltwriaeth o fenyw ryfeddol. Roedd y dylanwad a gafodd hi ar Abertawe yn un o themâu'r diwrnod. Roedd y cyflwyniad yn fformat arall sy'n dangos perthnasedd hanes i fywyd heddiw. Llongyfarchiadau i'r trefnwyr! Ymlaen at gynhadledd 2016!

Elizabeth Belcham



'Amy Dillwyn' yn y Gynhadledd
(darlun Elissa Evans)



Cipolwg Elissa o ddarlith allweddol Dr Kirsti Bohata am Amy Dillwyn

Pam ymunes i.

Roeddwn i'n gwybod am AMC. Roeddwn yn falch fod yr Archif yn bodoli ond heb feddwl llawer amdani nac am unrhyw archif arall 'chwaith. Heblaw, wrth gwrs, am Dreftadaeth Jazz Cymru, y mae gen i gysylltiad â hi trwy'r ochr berfformio ac wedi helpu gyda'i gweinyddu dros y blynyddoedd. Ond eto doedd hynny ddim wedi fy arwain at weithredu ar ei rhan.

Ac yna rywsut cefais fy hun yn mynychu Cynhadledd AMC ym mis Hydref, gan fy mod yng ngofal y stondin lyfrau, yn gwerthu llyfrau nad oeddwn prin wedi clywed amdanynt, gan awduron benywaidd ac am fenywod real hynod o bwysig. Yn ystod y cyfarfod, edrychais drwy'r teitlau amrywiol a themlo peth cywilydd na oeddwn yn ymwybodol o wir hanes yr ymdrechu a'r brwydro. Penderfynais ddarganfod rhagor a chysylltu ag AMC i wneud hynny. Meddyliais hefyd 'beth am ymaelodi?', fel y gallai fy nhansgrifiad i helpu cynnal AMC. Felly llenwais ffurflen ymaelodi a phenderfynu defnyddio fy nhâl am y diwrnod gwaith i dalu'r tansgrifiad! Gwyddwn y byddwn yn siŵr o anghofio ar ôl mynd adre pan fyddai bywyd real yn dominyddu drachefn.

Yna treuliais ddiwrnod difyr iawn; yn gwranddo ar siaradwyr diddorol ac ar gwestiynau ac atebion y mynychwyr; ac yn sgwrsio gyda menywod am fenywod gan amsugno'r awryglych dathliadol. Tua diwedd y diwrnod, yn ystod y

Cyfarfod Blynyddol, cefais fy hun yn codi fy llaw i gynnig bod yn aelod newydd o'r pwyllgor ... hyd yn oed cyn i mi gyflwyno fy ffurflen aelodaeth! Mae'n debyg mod o'r farn y gallwn i hefyd ddysgu a helpu, ac nid dim ond gadael i eraill ysgwyddo'r gwaith. Nid yw menywod fy nghenedlaeth i (neu'n iau) bob amser yn ymwneud ag archifau neu hanes ac maent yn rhy brysur droeon yn magu'u teuluoedd ac yn gweithio. Bron yn ddarwybod penderfynais dynnu'n groes i hynny a helpu'n hanesion ni i ddod yn ddefnydd archifol.

Wn i ddim yn iawn eto sut y gallaf i helpu a rhoi gwerth ychwanegol i AMC ond rwy'n gobeithio y gallaf, trwy fod yn aelod gweithredol ac ar y pwyllgor, o leiaf helpu sicrhau dyfodol AMC ac ymestyn fy ngwybodaeth am y menywod sydd wedi helpu fy nghenedlaeth i gael y rhyddid a'r pethau moethus sydd gennym. At hyn, rwy'n gobeithio gwneud llawer o ffrindiau newydd a dysgu am fywydau gwahanol, gan rannu a darganfod eu hanesion.

Elissa V Evans

Mynychodd Elin Jones Ysgol Undydd Astudiaethau Menywod ym Mangor ym mis Medi

....a dyma'i hymateb:

Newydd ddychwelyd o ddiwrnod rhagorol ym Mangor - ac nid y tywydd oedd yr unig beth gwych! Roedd y seminar yn wirioneddol ardderchog, gydag ystod eang o bapurau, gan gynnwys sgwrs Sue Fellows am Florence Caton, nyrs o Wrecsam a wasanaethodd yn Serbia yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Cafwyd trafodaethau difyr, yn enwedig am bapur Angharad Jones am fywydau menywod yng nghymunedau chwarelyddol Bethesda rhwng 1890 a 1910, pan roddwyd dibynadwyedd ffynonellau cyfoes dan y chwyddwydr. Daeth y bore i ben gyda dadansoddiad ffres Shan o ymfudo i Batagonia o bersbectif benywaidd - agwedd newydd i mi. Yna es i draw i weld yr arddangosfa am y 150fed pen-blwydd, roedd Shan wedi helpu i'w chynnull, a chefais fy nharo gan ddiffwythder llwyr y Wladfa. Doedd hyd yn oed Cwm Hyfryd ddim yn edrych yn hyfryd iawn i mi.

Diolch yn fawr iawn

Pwy yw Pwy yng Nghymru 1920

Gwnaeth sgwrs Marion Löffler am y menywod yn y *Bywgraffiadur Cymreig* imi feddwl am y cyhoeddiad *Who's Who in Wales 1920*, a lle menywod ynddo. Wnes i mo'i ddarllen o glawr i glawr, ac rwy'n dal yn ceisio darganfod rhagor am Miss, a ddisgrifir fel 'nofwraig ardderchog', ond gellir dod i ambell gasgliad diddorol.

Yn gyntaf, mae bylchau. Does dim sôn, er enghraifft, am y chwirydd Davies, Gwendoline a Margaret, a fu'n gwasanaethu gyda'r Groes Goch Ffrengig yn ystod y rhyfel yn ogystal ag yn casglu gweithiau celf (cynhaliwyd arddangosfa gyhoeddus gyntaf eu casgliad yng Nghaerdydd yn 1913). Cynhwysir menywod eraill adnabyddus: Elizabeth Andrews, Arglwyddes y Rhondda, Amy Dillwyn, Violet Douglas Pennant – ond mae tuedd i'r darnau amdanynt i fod yn fyrrach a mwy cryno nag eiddo'r gwrywod cyfatebol mewn bywyd cyhoeddus. Dyma, er enghraifft, y cofnod am Amy Dillwyn.

DILLWYN, Miss Elizabeth Amy, Tyglyn, West Cross, Swansea; *dau.* late Lewis Ll. Dillwyn, M.P., on whose death she took charge of his interests; Member Swansea Chamber of Commerce, Board of Guardians, etc; greatly interested in business, politics and hospital work.

Mae llawer o'r cofnodion am fenywod yn sôn am eu gyrfaoedd yn y gorfennol yn hytrach na'r presennol, er bod digon o arolygwyr iechyd, cantorion o fri, cenhadon a

phrifathrawesau (gan gynnwys Emily Phipps) yn eu plith. Ac roedd nifer annisgwyl efallai wedi derbyn anrhydeddau MBE neu OBE am eu gwaith yn ystod y rhyfel, yn gysylltiedig â'r Groes Goch droeon, ond mae 'athrawes cyn priodi' neu 'cyn-athrawes drwyddedig' yn sylw cyffredin, sy'n dangos sut y cafodd llawer o fenywod gweithredol eu cyfyngu i waith gwirfoddol ar ôl priodi.

Ac mae ambell syrpreis: Mrs Mary Caroline Inge 'Tirfeddiannwr a Meistr Cŵn Hela Atherstone'. Ac o oedi gyda chofnodion y llythren 'I', hwn:

IWAN, Miss Mair ap, B.A. (Wales), Schoolmistress, Patagonia; *dau.* of Llwyd ap Iwan, who was shot by desperadoes in the Andes.

Caroline Fairclough

Croesewir cyfraniadau i'r Cylchlythyr gan bob aelod. Os gallwch chi gyflwyno eich cyfraniad yn ddwyieithog byddem yn gwerthfawrogi hynny'n fawr. Anfonwch eich cyfraniadau o.g.y.dd. at: newsletter@womensarchivewales.org

**Dyddiad cau y rhifyn nesaf
Dydd Gwener 26^{ain} Chwefror**

Os hoffech chi gopi print bras o'r Cylchlythyr yn Gymraeg neu'n Saesneg, cysylltwch â Caroline ar y cyfeiriad ebost uchod, neu ffoniwch 01873 890540.

Golygwyd y Cylchlythyr hwn gan Caroline Fairclough, a'r cyfieithydd yw Catrin Stevens.




Ladas Powell. Chatham. Rhaefr 1918


Ladas Powell (WAAC/QMAAC)

Ymunodd Ladas May Powell â Chorfflu Byddin Atodol y Menywod (WAAC) ym mis Mai 1918, a hynny, mae'n bosibl, yn ôl ei merch, wedi iddi glywed Margaret Haig Thomas yn areithio yng Nghaerdydd. Cafodd ei geni a'i haddysgu yng Nghwmafon, a gadawodd yr ysgol yn 13 neu 14 oed. Adwaenid Ladas, a enwyd yn ôl traddodiad teuluol ar ôl ceffyl rasio, fel Gladys pan oedd yn y WAAC. Ymddengys iddi dreulio'r rhan fwyaf o'i hamser yng Ngwersyll Stonar, Sandwich, Caint. Roedd Gwersyll Stonar yn enfawr, gan ei fod yn gwasanaethu harbwr newydd yn Richborough a adeiladwyd i wasanaethu traffig i ac o Ffrainc. Parhawyd i'w ddefnyddio tan 1920 o leiaf, pan ryddhawyd Ladas o'r corfflu. Byddai aelodau WAAC yn coginio a gweini yn y gwersyll; cyfrifid y menywod hyn yn 'weithwyr', a thrigent mewn is-wersyll ar wahân ar draws y ffordd. Roedd Ladas yn byw yng Nghwt 167, 3 Gwersyll Stonar.

Ym mis Medi 1919 cafodd Ladas albwm. Gofynnodd nid yn unig i'w ffrindiau yn y cwt i ysgrifennu ynddo, ond cadwodd ffotograffau, trwydded deithio, gwahoddiad i barti dadfyddino ('a



ffrind gwrywaidd') a cherdyn busnes ei swyddog hefyd. At hyn, ysgrifennodd neu copiodd hi gerddi yn dathlu newid enw'i chorfflu o WAAC i Gorfflu Atodol Byddin y Frenhines Mary (QMAAC), a ddigwyddodd yn Ebrill 1918, a cherdd hir 'Only a WAAC'. Mae'r cofnodion eraill yn amrywiol dros ben. Ceir un darlun dyfrlliw da o long ryfel yn cyrraedd yr harbwr, yn ogystal â chyfraniad braidd yn amheus gan gyd-aelod yn y cwt. Ar y cyfan mae llawysgrif a sillafu'r cyfranwyr yn dda iawn, ac yn deyrnged i'r addysg fer a dderbyniodd y rhan fwyaf o ferched y dosbarth gweithiol a adawodd yr ysgol yn 13 neu'n 14 oed. Yn ogystal â'r albwm rydym wedi gallu sganio papurau eraill, gan gynnwys papur rhyddhau Ladas, dyddiedig 2nd Chwefror 1920 (gweler isod) a ffotograff o QMAACau, gan gynnwys Ladas, yn marsio trwy Sandwich, ar achlysur dathlu'r Cadoediad efallai.



Diolch yn fawr i ferch Ladas Powell, Mildred Stearn, am ganiatáu i ni ddefnyddio'r rhain.

W.F. No 055003/250112-1-20
ENROLLED FOR DURATION OF WAR MOBILE.
WARNING.—If you lose this Certificate a duplicate cannot be issued.

Certificate of discharge of No. 40422
 (Name) Rowell Ladas May
 Queen Mary's Army Auxiliary Corps
 who was enrolled at Paradise
 on the 24.5.18

She is discharged in consequence of en

TERMINATION OF ENGAGEMENT.
 (Place) Dover
 (Date) 11.2.20
 Signature of Officer i/c En. Gibson, Major
 Records, Q.M.A.A.C. i/c RECORDS Q.M.A.A.C.

Description of the above-named woman on discharge:—
 Age 30 Marks of scars, whether on face or other parts of body:
 Height 5' 2 1/2"
 Build medium
 Eyes Blue
 Hair Red Brown

N.B.—Any person finding this Certificate is requested to forward it to the Officer i/c Records, Q.M.A.A.C., War Office, London.

(S. 11 62) W.3975—M10700 8900 11/19 HWV(F.551) G.986

Menywod yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf

Mae pethau'n dechrau dod i fwcwl yn awr o safbwynt y prosiect a ariannwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri , gyda defnydd newydd yn cyrraedd yn gyson. Am gasgliad rhyfeddol gan WAAC yn y Rhyfel, gweler y darn ar Ladas Powell ar y dudalen flaenorol.

Rydym wedi gwneud cysylltiad bellach â nifer o grwpiau ac unigolion sy'n barod i rannu eu hadnoddau â ni. Er enghraifft, mae Dr Gethin Matthews o Brifysgol Abertawe wedi bod yn gweithio ar Roliau er Anrhydedd mewn capeli (maent yn cofnodi aelodau'r capel a wasanaethodd yn y Rhyfel nid y rhai a fu farw yn unig), a bu'n hynod hael yn rhannu enwau â ni.

Mae gwefan y prosiect wrthi'n cael ei hadeiladu yn awr a gobeithiwn y bydd yn barod erbyn y Nadolig. Bydd hwn yn safle byw, y gellir ychwanegu defnydd newydd ato. Daliwch i anfon gwybodaeth atom a diolch i'r aelodau a'r ffrindiau hynny sydd wedi cyfrannu eisoes.



Manylion plac ar Gofeb Ryfel Bae Colwyn gan y cerflunydd John Cassidy. Gwelir enw nyrs, Catherine Williams QAIMNS, ar y chwith hefyd. Llundun: Val Wakefield.

Rydym yn dal i chwilio am luniau'r enwau canlynol ar Gofebion Rhyfel. Cysylltwch â mi (caroline_fairclough@yahoo.co.uk) cyn teithio i bellterau Bagillt er hynny!

| | |
|---|---|
| Eglwys y Santes Marged Bodelwyddan | Bedd Rhyfel Doris Quane QMAAC |
| Eglwys Sant Tysilio Cwmtu, Ceredigion | Plac er cof am Grace Evans |
| Cofeb Ryfel Penfro | Nyrs Williams |
| Cofeb Ryfel Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin | Caroline Jackson Davies |
| Cofeb Ryfel Cosheton, Sir Benfro | Frances Ethel Brace (diolch Kathy Talbot) |
| Cofeb Ryfel Bagillt, Sir y Fflint | Annie and Ellen Crosby |

Yn y Senedd

Ar y 10^{fed} Tachwedd gwahoddwyd ni i ymuno â nifer o grwpiau eraill a ariannwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i ddigwyddiad yn y Senedd, sef: Y Rhyfel Byd Cyntaf: Ddoe a Heddiw. Cawsom gyfle i gwrdd ag ACau, rhwydweithio gyda grwpiau eraill a chael tynnu'n llun gyda Syr Peter Luff, Cadeirydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Gwnaethpwyd cysylltiadau gwerthfawr, a chasglwyd defnydd newydd. Mae Prosiect Eryri, Yr Ysgwrn, sy'n adfer cartref y bardd Hedd Wyn (Ellis Humphrey Evans) wedi caniatáu i ni ddefnyddio llythyr a ysgrifennwyd gan ei chwaer Mary Evans. Roedd hi'n hyfforddi yn aelod o Fyddin y Tir yng Ngholeg Madryn ger Pwllheli ac ysgrifenna'n bennaf am ei diffyg arian, ond gan sôn hefyd am ei hiraeth am ei brawd Ellis. At hyn gwnaethom gyswllt â'r prosiect Cymru dros Heddwch sy'n digideiddio Llyfr Coffadwriaeth Cenedlaethol Cymru. Byddant yn tynnu ein sylw at enwau menywod ynddo. Bydd cyswllt arall a wnaethpwyd yn helpu gydag enwau menywod yn y byd academiaidd. Roedd yn gyfle gwych i ni hyrwyddo'n prosiect.



Catrin Stevens, Jenny Sabine, Sir Peter Luff o CDL a Caroline Fairclough